***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1075

# Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000

**Derbynioldeb coflyfrau a dogfennau eraill fel tystiolaeth**

**12.**—(1) Bydd unrhyw

(a) goflyfr a gedwir o dan Erthyglau 6, 17.2 neu 28c;

(b) ddatganiad a gyflwynir o dan Erthyglau 8.1, 11, 12, 17.2 neu 28f;

(c) adroddiad ymdrech a gwblhawyd o dan Erthyglau 19b ac 19c;

(ch) ddogfen a baratoir o dan Erthyglau 9 neu 13;

(d) ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth a fynnwyd ac a dderbynniwyd gan ganolfan monitro pysgodfeydd a sefydlwyd o dan Erthygl 3.7,

o Reoliad 2847/93, yn dystiolaeth o'r materion a ddatgenir ynddynt mewn unrhyw achos am dramgwydd perthnasol.

(2) At ddibenion paragraff (1) bydd "gwybodaeth a fynnwyd" yn golygu data sy'n gysylltiedig ag—

(a) manylion adnabod y cwch pysgota;

(b) lleoliad daearyddol diweddaraf y cwch pysgota, wedi'i gyfleu mewn graddau a munudau lledredd a hydred; ac

(c) y dyddiad a'r amser pan sefydlwyd y safle hwnnw, fel y cyfathrebir trwy system fonitro cychod sy'n seiliedig ar loeren a sefydlwyd o dan Erthygl 3.1 o Rheoliad 2847/93.